

Gofynion Sylfaenol y System

Er mwyn gallu rhwngweithio'n effeithiol â'r gweithgareddau, lawrlwythwch y fersiwn diweddaraf o Internet Explorer, Mozilla Firefox, Chrome neu Safari.

Gweler y cysylltiadau isod er mwyn diweddarau eich porwr.



<http://windows.microsoft.com/en-gb/internet-explorer/browser-ie>



<http://www.mozilla.org/en-GB/firefox/new/>



<https://www.google.com/intl/en/chrome/browser/safari/>

<http://www.apple.com/support/mac-apps/safari/>

Cydraniad sgrin o 1280 x 800 fusa'i'n ddelfrydol ar gyfer cyfrifiadur neu liniadur. Sicrhewch fod lefel y sain ar y cyfrifiadur yn addas er mwyn gwneud defnydd llawn o'r adnodd. Mae'r holl weithgareddau'n gweithio ar draws yr amryw blatfformau gan gynnwys tabledi symudol megis Apple ac Android.

Allwedd eiconau a ddefnyddir yn y gweithgareddau



Llusgo a gollwng

Cliciwch ar yr eicon i glywed y sain unwaith eto

Dewisiwch o'r ddewislen er mwyn cwblhau'r frawddeg

Cliciwch ar yr eicon i ddewis gweithgaredd gwahanol

Cliciwch i glywed y cyfarwyddiadau unwaith eto

Cliciwch ar yr eicon i glywed neu ddiffodd y sain

Diolch i aelodau'r panel monitro am bob cyngor ac arweiniad

Huw Roberts, Llywodraeth Cymru (cadeirydd)

Ann Ireland, Ysgol I.D. Hooson, Rhosllanerchrugog

Lynette Jones, Ysgol Dewi Sant, Llanelli

Ann Owen, Athrawes Ymgynnwys, Adran Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Siân Powys, Ysgol Treganna, Caerdydd

Dafydd Rhys, Ysgol I.D. Hooson, Rhosllanerchrugog


Nia Thomas, Ysgol Morfa Rhiannedd

Evelyn Williams, Ysgol Bronyfoel

Diolch i'r ysgolion a fu'n treialu'r gyfres am yr adborth gwerthfawr
Ysgol Bro Gwydir, Conwy; Ysgol Nantgaredig, Sir Gâr; Ysgol Penygroes, Sir Gâr.



Peniarth



Llawlyfr Mets Maesllan



Tîm awdura: Bethan Clement, Marian Thomas, Nanna Ryder.
Dyluniwyd gan Rhiannon Sparks.

Canllawiau graddoli llyfrau

Lefel 1		Lefel 2		Lefel 3		Lefel 4	
Geirfa		Geirfa		Geirfa		Geirfa	
- cytseiniaid unigol - llafariadid byr - llafariadid hir - geiriau c-ll-c yn bennaf - geiriau allweddol: a'i, a'r, ei, i'r, i'w, mynd, o'r, wedi, y, yn, yna, yr		- geiriau unsill gyda chytseiniaid clwm, e.e. dant, cefn, ofn - llythrennau dwbl – ch, dd, ll, th, rh, ng, ff, si, ph - geiriau amsillafog – deusill yn bennaf		- cytseiniaid clwm - geiriau amsillafog, e.e. aderyn, anifeiliaid, anhygoel		- geirfa yn hytrach na thestun mwy heriol - llafariadid clwm, e.e. traed, dwylo, gwyn, Korea - dyblu 'n' a 'r' - geiriau lluosog gyda llafariadid clwm, e.e. ffeithiau, streipiau, mynyddoedd	
Treigladau		Treigladau		Treigladau		Treigladau	
- ambell dreigladd meddal p-b, t-d, c-g, b-f, m-f - ambell dreigladd trwynol b-m, d-n D.S. Ni threiglir enwau lleoedd ar y lefel hon.		- treigladd meddal - treigladd trwynol - dechrau cyflwyno'r treigladd llaes		treigladd llaes		treiglo'n ehangach	
Cystrawen		Cystrawen		Cystrawen		Cystrawen	
- brawddegau byr, un cymal - ailadrodd cyson - cysylltair 'a' i gysylltu enwau, e.e. Sam a Mim - sillgoll 'r, 'n - amser presennol y ferf - dyma, mae, ydw, ydy/yw, dydw, dydy, oes - gorchmynion syml - cod, cer		- brawddegau cytbwys – dau gymal - defnydd o gysyllteiriau – a, ond - peth ailadrodd - amser amherffaith y ferf		- brawddegau hirach a chystawen ychydig yn fwy cymhleth - ailadrodd patrymau llai cyfarwydd - ffurf gryno'r ferf yn yr amser gorffennol - 3ydd person yn bennaf, e.e. gwelodd, cafodd, clywodd - amser dyfodol – byddaf, bydd		- brawddegau mwy cymhleth - defnydd helaeth o briod-ddulliau - ffurf gryno'r ferf yn y gorffennol – gwelais, rhedais - ffurf amhersonol gorffennol, e.e. darllenwyd, penderfynwyd - cymharu ansoddeiriau – y radd eithaf - rhedeg arddodiaid D.S. Noder mai 'sy' ac nid 'sydd' a ddefnyddir mewn deialog ar y lefel hon.	

Os defnyddir geiriau sydd y tu hwnt i'r diffiniad uchod, rhestrir hwy o dan 'Geiriau i'w hymarfer' ar dudalen olaf pob llyfr.

Strwythur y gyfres - lefelau

- Llyfrau a gweithgareddau wedi'u lefelu o ran camau seiniogol a phatrymau iaith
 - 1 llyfr heb ei lefelu (Mêts Maesllan) i gyflwyno'r cymeriadau a'u cefndir
 - lefel 1 (glas) – 6 llyfr yn canolbwyntio ar eiriau cytsain/llafariad/cytsain
 - lefel 2 (gwyrdd) – 8 llyfr yn canolbwyntio ar lythrennau dwbl e.e. ff, ch, rh
 - lefel 3 (oren) – 7 llyfr yn canolbwyntio ar gyfuniadau o gytseiniaid
 - lefel 4 (coch) – 10 llyfr yn canolbwyntio ar gyfuniadau o lafariaid - gweler Tabl 1 am ganllaw pellach o'r modd y datblygir y camau seiniogol a'r patrymau ieithyddol o fewn y gwahanol lefelau
- gall y llyfrau gael eu cyflwyno mewn unrhyw drefn yn ôl gallu, lefel datblygiad a diddordeb yr unigolyn - gweler Tabl 2 am fanylion pellach.

Llyfr rhagarweiniol – dim lefel (1)		1. Mêts Maesllan
Lefel 1 (6)		Lefel 2 (8)
1. Map Maesllan	1. Rap eto!	1. Rap eto!
2. Picnic	2. Penwythnos y mêts	2. Penwythnos y mêts
3. Ceir	3. Mae garddio'n grêt	3. Mae garddio'n grêt
4. Ble mae'r mêts?	4. Calon	4. Calon
5. Yn yr haf	5. Cotwm	5. Cotwm
6. Rap mêts!	6. Ci pwy?	6. Ci pwy?
	7. Achub Twm	7. Achub Twm
	8. Cŵn achub	8. Cŵn achub
Lefel 3 (7)		Lefel 4 (10)
1. Bwgan y bryn	1. Dai yn mynd i'r ysgol	1. Dai yn mynd i'r ysgol
2. Pen-blwydd Sam	2. Ailgylchu	2. Ailgylchu
3. Bob bendigedig	3. Taecwondo	3. Taecwondo
4. Pyped Sam	4. Mynyddoedd Cymru	4. Mynyddoedd Cymru
5. Anifeiliaid anhygoel	5. Eliffantod	5. Eliffantod
6. Diogelwch ar lan y môr	6. De Korea	6. De Korea
7. Mynd i'r ysgol gyda'r mêts	7. Diogelwch ar y ffordd	7. Diogelwch ar y ffordd
	8. Ffeithiau ffantastig	8. Ffeithiau ffantastig
	9. Lladrdd y Gelli	9. Lladrdd y Gelli
	10. Sgramblo	10. Sgramblo

Tabl 2

Cysylltiad thematig

Ceir cysylltiad thematig rhwng rhai o'r llyfrau, yn seiliedig ar:

- gefnidir a diddordebau'r cymeriadau - gweler Tabl 3a am fanylion pellach
- thema bynciol – gweler Tabl 3b am fanylion pellach.

Mim a'r teulu	Sam a'r teulu	Wil a'r teulu	Bob y ci
- Ceir - Mae garddio'n grêt - Achub Twm - Lladrdd y Gelli - De Korea	- Pen-blwydd Sam - Pyped Sam - Bwgan y bryn - Sgramblo	- Bwgan y bryn - Taecwondo - Dai yn mynd i'r ysgol - Mynyddoedd Cymru	- Ci pwy? - Cŵn achub - Bob bendigedig

Tabl 3a

Gwybodaeth gyffredinol (ffeithiau)	Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)	Dylunio a thechnoleg
- Calon - Cotwm - Cŵn achub - Anifeiliaid anhygoel - Ffeithiau ffantastig	- Ble mae'r mêts? - Mae garddio'n grêt - Ailgylchu - Eliffantod	Pyped Sam
Addysg bersonol a chymdeithasol	Diddordebau cyffredinol	
- Pen-blwydd Sam - Diogelwch ar lan y môr - Mynd i'r ysgol gyda'r mêts - Dai yn mynd i'r ysgol - Diogelwch ar y ffordd	- Ceir - Taecwondo - Mynyddoedd Cymru - Sgramblo	

Tabl 3b

Beth yw Mêts Maesllan?

- pecyn o lyfrau a gweithgareddau sy'n dilyn hynt, helynt a diddordebau criw o ffrindiau 10 ac 11 oed sef Mim, Ben, Sam a Wil (a Bob y ci) sy'n byw ym mhentref Maesllan
- cyfres trawsgwricwlaidd o 32 o lyfrau sy'n cynnwys rhai ffuglen, feithiol ac ambell un ar ffurf mydr ac odl
- llyfrau byr rhwng 16 a 28 tudalen i ddenu diddordeb y plant hynny sy'n amharod i ddarllen
- y llyfrau a'r gweithgareddau wedi'u graddoli ar 4 lefel er mwyn datblygu sgiliau darllen a phob un yn adeiladu ar y lefel flaenorol
- gweithgareddau digidol a phapur ar wefan i gyd-fynd â phob llyfr er mwyn cadarnhau'r eirfa a'r patrymau iaith a gyflwynir.

Y cefndir

- cyfres i gynorthwyo plant yng Nghyfnod Allweddol 2 sydd ag anawsterau dysgu penodol i feistrolï llythrennedd yn y Gymraeg
- canolbwyntio ar gamau seicolegol a phatrymau iaith sy'n seiliedig ar 'O Gam i Gam' (Griffith, diweddardwyd gan Tomos a Jones, 2009) a'r 'Ffynhonnell Eirfaol' (Hughes, 1978).

Nod y pecyn

- hybu diddordeb mewn llyfrau a mwynhad wrth ddarllen
- cyflwyno adnoddau darllen sy'n apelio at fechgyn yn ogystal â merched
- cyflwyno'r plant i ddeunydd darllen sydd â diwyg diddorol a chyfoes
- datblygu sgiliau'r plant hynny sydd ag anawsterau dysgu penodol a'r rhai sy'n profi anawsterau cyffredinol wrth ddatblygu sgiliau darllen yng Nghyfnod Allweddol 2 yn bennaf
- cyflwyno rhai llyfrau sy'n addas ar gyfer brig y Cyfnod Sylfaen ac wrth bontio i Gyfnod Allweddol 3 gan ddibynnu ar lefel sgiliau darllen yr unigolyn
- darparu amrywiaeth o wahanol ffurfiau o destun gan gynnwys llyfrau feithiol sy'n ddefnyddiol ar gyfer pob disgybl yn y dosbarth oherwydd natur y testun
- darparu llyfrau a gweithgareddau i annog cwestiynu pellach gan oedolion er mwyn datblygu sgiliau meddwl.



Arddull a diwyg

- amrywiaeth o ddyluniadau gwreiddiol a ffotograffau
- ffurfiau amrywiol o ran llyfrau unigol ac o fewn y llyfrau gan gynnwys storïau, llyfrau feithiol, rap/rhigwm, dyddiadur, ffeil-o-ffaith, deialog, cyflwyniad Pwerbwynt, e-bost, negeseuon testun a mwy (gweler Tabl 4 am fanylion pellach am y math o lyfrau a geir yn y gyfres)
- cyflwynir y testun yn y llyfrau ac ar y sgrin ar gefndir lliw hufen er mwyn hwyluso'r broses ddarllen
- defnyddir ffont 'Chalkboard', maint 16 ar gyfer y lefelau is a maint 14 ar gyfer y lefelau uwch (dilyniwyd cyfarwyddiadau'r Gymdeithas Dyslecsia Brydeinig (BDA) ar gyfer hyn)
- amrywiaeth o dafodiaith de a gogledd Cymru ar draws y gyfres.

Stori	Ffeithiol	Cyfuniad o stori a ffeithiol	Odl
● Ci pwy? ● Achub Twm ● Pen-blywydd Sam ● Bob bendigedig ● Lladrad y Gelli	● Ceir ● Calon ● Cotwm ● Cŵn chwilio ● Pyped Sam ● Anifeiliaid anhygoel ● Ailgylchu ● Taecwondo ● Mynyddoedd Cymru ● Eliffantod ● De Korea ● Ffeithiau ffantastig ● Sgramblo	● Mêts Maesllan ● Map Maesllan ● Picnic ● Ble mae'r mêts? ● Yn yr haf ● Penwythnos y mêts ● Mae garddio'n grêt ● Diogelwch ar lan y môr ● Mynd i'r ysgol gyda'r mêts ● Dai yn mynd i'r ysgol ● Diogelwch ar y ffordd	● Rap mêts! ● Rap etol ● Bwgan y bryn

Tabl 4

Gweithgareddau pellach

- yr holl weithgareddau ar gael ar wefan Peniarth ar www.canolfanpeniarth.org/metsmaesllan am ddim!
- gweithgareddau rhyngweithiol yn cyd-fynd gyda phob llyfr mewn gwahanol ffurfiau ac yn ffocysu ar wahanol agweddau ieithyddol e.e. patrymau sillafu, strwythur brawddegau, darllen a deal ac ati
- syniadau ar gyfer gweithgareddau ysgrifenedig/lafar ar gael ar gyfer pob llyfr mewn fformat pdf ar wefan Peniarth, e.e. cwis, trefnu testun, geiriau sy'n odli a llawer mwy
- cyfle i wahaniaethu'r gweithgareddau ysgrifenedig yn ôl lefel a gallu, e.e. gweler enghraifft o hyn yn 'Penwythnos y mêts'
- cyfle i addasu'r gweithgareddau ysgrifenedig yn ôl gofynion unigolion a/neu grwpiau bach, e.e. gweler enghraifft o bingo neu gêm cof yn 'Rap etol'
- cyflwyno'r dasg ar lafar neu'n ysgrifenedig, e.e. 'Mae garddio'n grêt'